| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | Dyddiad: | Dydd Iau, 27 Medi 2012 |
| | | Deialu Union: | 01824 712568 |
| | | e-bost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD GWENER, 5 HYDREF 2012** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN YMA O'R CYFARFOD**

**ADLEWYRCHIAD TAWEL**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O FUDDIANNAU**

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

## 3 MATERION BRYS YN ÔL CYTUNDEB Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid eu hystyried, ym marn y Cadeirydd, yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 PENODI IS-GADEIRYDD

## 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar Fehefin 29ain 2012 (copi’n amgaeedig) ac i ystyried unrhyw faterion sy’n codi.

## 6 CYFLWYNIAD GAN GYMDEITHAS DYNEIDDWYR PRYDAIN

Cyflwyniad gan Gymdeithas Dyneiddwyr Prydain ar “Sut y gall Cymdeithas y Dyneiddwyr gefnogi gwaith CYSAG”.

## 7 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU ARCHWILIO

I ystyried adroddiad gan yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol (copi’n amgaeedig) yn dadansoddi canlyniadau archwiliadau diweddar o bedair ysgol a gynhaliwyd rhwng Mawrth 2012 a Mai 2012.

## 8 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG 2011-12

I ystyried adroddiad gan yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol (copi’n amgaeedig) i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG.

## 9 CCCYSAG

I dderbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas a gynhaliwyd ar Fehefin 29ain 2012 (i ddilyn).

## 10 LLYTHRENNEDD/RHIFEDD O FEWN CYSTADLEUAETH ADDYSG GREFYDDOL I YSGOLION

I dderbyn diweddariad geiriol gan yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG ynglŷn â chystadleuaeth i ysgolion i gynhyrchu adnoddau a fydd yn cynnwys Llythrennedd a Rhifedd mewn Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 2 a/neu Gyfnod Allweddol 3.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

## 11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Fe gynhelir cyfarfod nesaf CYSGA Sir Ddinbych am 10.00 a.m. ar ddydd Gwener, Chwefror 1af 2013 yn Siambr y Cyngor, Ffordd Plas Nant, Prestatyn.

## RHAN 2 – DIM EITEMAU

## AELODAETH

**Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Bill Tasker
Carys Guy-Davies
Julian Thompson-Hill
Dewi Owens
Alice Jones
Margaret McCarroll
Arwel Roberts
Joe Welch

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Mr. Dominic Oakes
Y Parch. B H Jones
Y Parch. Martin Evans-Jones
Mary Ludenbach
Mrs C Thomas
Mrs E Wright
S Harris
Is-Gapten Sian Radford

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

Ms M Bradshaw
Mrs C Harmsworth
Mrs Maureen Phillips

**Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn
Mr G Craigen
Mrs M B Lloyd

## COPÏAU AT:

Bob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gyhaliwyd yn Council Chamber, Russell House, Rhyl , Dydd Gwener, 29 Mehefin 2012 am 2.00 pm.

**YN BRESENNOL**

**Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr Alice Jones, Margaret McCarroll, Arwel Roberts, Joe Welch, Carys Guy-Davies a/ac Bill Tasker

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Y Parch. B H Jones, Mr R Elms a/ac S Harris

**Yn Cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

Mrs C Harmsworth

**Aelodau Cyfetholedig**

Mrs M B Lloyd

**HEFYD YN BRESENNOL**

Uwch Ymgynghorydd dysgu AG (PL), a Chlerc CYSAG (KEJ), a Chlerc CYSAG (SLW).

**YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mrs Elaine Wright, Ms Maxine Bradshaw, Is-Gapten Sian Radford, Mr G Craigen, Y Cynghorydd Dewi Owens a/ac Y Cynghorydd Julian Thompson Hill

---

**MYFYRDOD TAWEL**

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrdod tawel.

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o fuddiannau personol neu fuddiannau a oedd yn rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 24ain Chwefror 2012 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

**Materion yn Codi -**

Tudalen 6 – Eitem Rhif 8 – Cystadleuaeth Llythrennedd/Rhifedd mewn AG ar gyfer ysgolion.
Adroddodd yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG bod cais i Ymddiriedolaeth Elusennol Archesgob Rice Jones am gyllid grant i efnogi'r gystadleuaeth wedi ei wrthod. Adroddodd yr Uwch Ymgynghorydd y Byddai Cyngor Sir Ddinbych yn ariannu'r gystadleuaeth.

Tudalen 7 – Cadarnhaodd Mrs Mairwenna Lloyd bod llythyrau o werthfawrogiad wedi eu derbyn gan aelodau hir eu gwasanaeth a oedd wedi ymddeol o CYSAG. Anfonwyd y llythyrau yn diolch i'r unigolion am eu hymroddiad a'u gwasanaeth gwerthfawr dros y blynyddoedd.

Tudalen 8 – Eitem Rhif 9 – Archwiliadau Newydd Estyn a'r Ffocws ar Werthuso Ysgolion.
Adroddodd yr Uwch Ymgynghorydd Addysg AG bod gwahoddiad eto i'w roddi i ysgol a oedd wedi bod yn destun archwiliad gan Estyn dan y fframwaith newydd i fynychu cyfarfod CYSAG yn y dyfodol. Byddai mynychu cyfarfod CYSAG yn galluogi i'r ysgol adrodd am y profiad a sut yr oedd Arolygwyr Estyn wedi ystyried AG.

Tudalen 9 – Eitem Rhif 10 – Enwebiad i Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAG Cymru.
Enwebwyd yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG a'i dderbyn ar Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAG Cymru.
Esboniodd yr Uwch Ymgynghorydd bod 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru a bod cynrychiolwyr o bob Awdurdod Lleol yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn yng nghyfarfod y CCYSAGC. Mae aelodau gweithredol CCYSAGC yn cyfarfod gyda chorff ehangach ledled y DU.

***PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 24ain Chwefror 2012 fel cofnod cywir.*

## 5 DADANSODDI ADRODDIADAU ARCHWILIO

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG Adroddiad Dadansoddi Archwiliad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Rhoddodd yr Ymgynghorydd grynodeb o'r adroddiad a gwnaeth sylw at y ffaith bod adroddiad Estyn yn cyfeirio at AG a dderbyniwyd yn ddiolchgar.
Cyflwynodd Mairwenna Lloyd ei gwerthfawrogiad i'r Uwch Ymgynghorydd am dynnu'r wybodaeth o Adroddiad Estyn i'r Pwyllgor ei thrafod. Hefyd, argymhellodd bod llythyrau llongyfarch yn cael eu hanfon at y chwe ysgol am eu gwaith rhagorol.
Nododd Sylvia Harris y ffaith bod gan Ysgol Tir Morfa ddsgyblion gydag ananwsterau dysgu difrifol a dylid anfon llongyfarchiadau arbennig i Ysgol Tir Morfa yn dilyn y sylwadau yn yr Adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) Derbyn a chydnabod yr adroddiad;*
*(b) Anfon llythyr i bob ysgol yn eu hysbysu bod eu Hadroddiad Archwilio wedi ei ystyried, yn eu llongyfarch ar y nodweddion da a nodwyd, ac yn eu hatgoffa o wasanaethau'r Uwch Ymgynghorydd Addysgu a'r Swyddogion Gwella Ysgolion mewn perthynas ag unrhyw feysydd lle gellid gwella neu faterion allweddol a oedd angen sylw;*
*(c) Gofyn i'r AALl ddosbarthu'r llythyrau i'r ysgolion da sylw.*

**6 ADOLYGIADAU MONITRO A CHEFNOGI**

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).
Ymwelodd yr Uwch Ymgynghorydd â 2 Ysgol Uwchradd, ynghyd â'u Hysgolion Bwydo Cynradd, bob blwyddyn ar ran y Cyngor Sir i arsylwi gwersi. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn ymwneud ag Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgolion Cynradd Bwydo.
Hysbysodd yr Uwch Ymgynghorydd y Pwyllgor bod Sesiwn Gyda'r Nos wedi ei gynnal a bod rhyw 55 o athrawon wedi mynychu, a oedd yn nifer dda iawn. Roedd cyflwyno data yn yr adroddiad yn galluogi i'r Uwch Ymgynghorydd fonitro cynnydd ac eistedd gydag athrawon ac awgrymu dulliau amgen o weithio os oedd angen.

**Ar y pwnt hwn (2.45pm) gadawodd y Cynghorydd Arwyl Roberts y cyfarfod.**

Rhoddodd yr Uwch Ymgynghorydd grynodeb o'r adroddiad.

Diolchodd Mairwenna Lloyd ar ran CYSAG i'r Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG am y gwaith caled o drefnu'r sesiwn gyda'r nos.

Gofynnodd y Cynghorydd Margaret McCarroll am gael nodi ei bod yn hynod falch gyda gwaith CYSAG ac er iddi fod yn llywodraethwr ysgol am nifer o flynyddoedd, nid oedd yn ymwybodol o rôl CYSAG.
Hysbysodd Mairwenna Lloyd y Cynghorydd McCarroll nad oedd yr Uwch Ymgyngorydd, ers 2007/2008, bellach yn cael mynychu Ysgolion Pabyddol gan mai'r ethos Babyddol oedd bod ganddynt eu cynghorwyr eu hunain.
Dywedodd y Cynghorwyr Bill Tasker a Margaret McCarroll y buasent yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Llywodraethwyr ac esbonio am CYSAG a'r gwaith rhagorol mae'n ei wneud.

Dymunodd Cate Harmsworth hysbysu'r cyfarfod pa mor galed y mae athrawon yn gweithio. Roedd gan athrawon ond 2.5 awr o amser rhydd yr wythnos i ddelio â chynlluniau gwersi ac ati. Roedd athrawon a fynychodd y sesiwn gyda'r nos wedi gwneud hynny yn eu hamser eu hunain ac yn ddi-dâl, a oedd yn dangos ymrwymiad ac ymroddiad rhagorol.

***PENDERFYNWYD*** –

(a) *Derbyn a chydnabod yr adroddiad;*
(b) *Cytuno bod llythyrau yn cael eu hanfon i'r ysgolion gyda chopi o'r adroddiad llawn, fel y'i cyflwynwyd i gyfarfod CYSAG;*
(c) *Gofyn i'r AALl ddosbarthu'r llythyrau i'r ysgolion dan sylw.*

## 7 CYMDEITHAS CYSAG CYMRU

**7(a)** Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG gofnodion cyfarfod diwethaf CCYSAGC (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).
Cyfeiriodd yr Uwch Ymgynghorydd at dudalen 35, Eitem rhif 10 yn y cofnodion – Cyflwyniad Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG): Dysgu y tu allan i'r dosbarth. Aeth rhyw 150 o ddisgyblion trwy Eglwys Gadeiriol Bangor ar ddiwrnod y cyflwyniad. Ymgymerodd Canolfan y Santes Fair â phrosiect ymchwil, gan gyflwyno holiaduron cyn ac ar ôl y profiad. Y canlyniad oedd bod Addysg Grefyddol y plant wedi elwa o'r profiad.

Gofynnodd Mairwenna Lloyd i'r Uwch Ymgynghorydd a fyddai'n atgynhyrchu diwrnod cyflwyno tebyg y Nadolig nesaf yn Sir Ddinbych. Cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd y byddai'n cysylltu ag Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Roedd Eglwys Gadeiriol Bangor wedi gofyn am ddiwrnod cyflwyno tebyg eto ar gyfer y Nadolig nesaf.

**7(b)** Esboniodd yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG bod CYSAG yn cynnwys aelodau lleol y Cyngor, yr Eglwys, athrawon a chyrff crefyddol eraill. Roedd Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain (BHA) wedi anfon cais i un o'u haelodau gael bod yn gynrychiolydd corff crefyddol ar CYSAG. Ymateb cyfreithiol CCYSAGC oedd na allai cynrychiolydd y BHA fod yn aelod Rhan A ond gallai gael ei Gyfethol, ac felly ni allai bleidleisio. Ar hyn o bryd, dim ond nifer fechan o bobl sy'n aelodau'r BHA yn Sir Ddinbych.

Cafwyd trafodaeth fer a chytunwyd gwahodd Aelod o'r BHA i gyfarfod CYSAG i gyflwyno'r rheswm pam y dylai fod yn Aelod a hefyd beth y byddai cynrychiolydd y BHA yn ei gyfrannu i CYSAG.

***PENDERFYNWYD*** –

(a) *Derbyn cofnodion cyfarfod CCYSAGC a gynhaliwyd ar 30ain Mawrth 2012 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir;*
(b) *Bod yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG yn cysylltu ag Eglwys Gadeiriol Llanelwy ynglŷn â diwrnod cyflwyno ar gyfer disgyblion y Nadolig nesaf*

(c) *Bod yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG yn gwahodd aelod o Gymdeithas Dyneiddwyr Prydain i roddi cyflwyniad i gyfarfod CYSAG yn esbonio pam y maent eisiau bod yn Aelod a'r hyn y byddant yn ei gyfrannu i CYSAG.*

## 8 GWEFAN MOODLE

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG adroddiad llafar i'r aelodau ar ddefnyddio Gwefan Moodle i ysgolion gyrchu adnoddau AG. Yn Sir y Fflint, roedd nifer o ddogfennau wedi eu hychwanegu i Moodle i ysgolion eu defnyddio. Roedd yr Uwch Ymgyngorydd wedi trefnu lle ar Moodle Sir Ddinbych a byddai'r holl adnoddau ar gael erbyn diwedd yr wythnos ganlynol. Roedd ysgolion y medru defnyddio safle Moodle gyda chyfrineiriau ac yn medru mynd ar safle Moodle y Cyngor. Byddai'r Uwch Ymgynghorydd yn ymymryd â diweddariadau rheolaidd ar safle Moodle.

***PENDERFYNWYD** bod yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG yn diweddaru gwefan Moodle gydag adnoddau AG perthnasol i ysgolion eu defnyddio.*

## 9 CYSTADLEUAETH LLYTHRENNEDD/RHIFEDD MEWN AG AR GYFER YSGOLION

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG adroddiad llafar yn hysbysu'r Aelodau o'r gystadleuaeth Llythrennedd/Rhifedd mewn AG ar gyfer ysgolion. Darllennodd lythyr a dderbyniwyd gan Ymddiriedolaeth Archesgob Rice Jones yn gwrthod y cais am ariannu. Mae Cyngor Sir Ddinbych ers hynny wedi cynnig ariannu'r gystadleuaeth.

Esboniodd Sylvia Harris ei bod yn Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Archesgob Rice Jones, a oedd yn elusen bychan iawn, a chyfyngiad uchaf eu cyllid oedd £250. Yn anffodus, ni ellid rhoi hyn i'r gystadleuaeth, ond roedd yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi'r gystadleuaeth yn gyfan-gwbl.

Hysbysodd yr Uwch Ymgynghorydd y Pwyllgor mai'r wobr oedd £200 i'r cynnig buddugol. Yn wreiddiol roedd y dyddiad cau cyn hanner tymor, ond dim ond un cais a dderbyniwyd, gan Ysgol Morgan yn Sir Ddinbych. Awgrymodd yr Uwch Ymgynghorydd ymestyn y dyddiad cau hyd at hanner tymor mis Hydref i annog mwy o geisiadau.
Cytunodd Mairwenna Lloyd gyda hyn ac awgrymu bod yr Uwch Ymgynghorydd yn cysylltu ag Ysgol Morgan i esbonio bod y dyddiad wedi ei ymestyn, ac y gallent dynnu'r cais presennol yn ôl a gwneud cais newydd os hoffent; eu penderfyniad hwy fyddai hynny.Eiliodd y Cynghorydd Margaret McCarroll yr argymhelliad hwn.

Esboniodd yr Uwch Ymgymghorydd mai dwy gystadleuaeth oedd yna, un ar gyfer llythrennedd ac un ar gyfer rhifedd.

***PENDERFYNWYD*** –

(a) *Bod yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG yn hysbysu ysgolion mai dyddiad cau'r gystadleuaeth nawr oedd hanner tymor mis Hydref*

(b) *Bod yr Uwch Ymynghorydd yn cysylltu ag Ysgol Morgan yn eu hysbysu bod y dyddiad cau wedi ei ymestyn ac yn gofyn a hoffent dynnu eu cais yn ôl a chyflwyno cais newydd, neu a oeddynt yn fodlon gyda'r cais presennol.*

**10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cyfarfod nesaf i'w gynnal ar ddydd Gwener 5ed Hydref 2012 am 10.00am
Lleoliad – Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun.

Wrth ddwyn y cyfarfod i ben, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.40pm**

<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>5 Hydref 2011</td></tr>
<tr><td>Eitem ar y Rhaglen:</td><td>6</td><td>Manylion yr Adroddiad</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir yr Adroddiad:</u><br><br>Cyflwyniad gan y Gymdeithas y Dyneiddwyr</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Diben yr Adroddiad:</u><br>Cyflwyniad ar ‘Sut all Gymdeithas y Dyneiddwyr gefnogi gwaith CYSAG’.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br><br>Bod aelodau CYSAG yn derbyn y cyflwyniad.</td></tr>
</table>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>5 Hydref 2012</td></tr>
<tr><td>Eitem ar y Rhaglen:</td><td>7</td><td>Manylion yr Adroddiad</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir i'r Adroddiad:</u><br>Mae gan CYSAG ddyletswydd statudol i fonitro darpariaeth AG ac addoli ar y cyd mewn ysgolion, ac mae'n arferol ei fod yn derbyn a dadansoddi adroddiadau archwilio Estyn ym mhob cyfarfod.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Diben yr Adroddiad:</u><br>Hysbysu'r aelodau o ganlyniadau Adroddiadau Archwilio Estyn ar ysgolion.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br>▪ Derbyn yr adroddiad<br>▪ Anfon llythyr at bob un o'r ysgolion yn eu hysbysu bod eu Hadroddiad Archwilio wedi ei ystyried, eu llongyfarch am y nodweddion da a adnabuwyd, ac yn eu hatgoffa o wasanaethau'r Uwch Ymgynghorydd Addysg AG a'r Swyddogion Gwella Ysgolion mewn perthynas ag unrhyw feysydd lle gellid datblygu neu faterion allweddol sydd angen eu trin.<br>Gofyn i'r Awdurdod Lleol ddosbarthu'r llythyrau i'r ysgolion dan sylw.</td></tr>
</table>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygiad
# CYSAG Sir Ddinbych

## Hydref 2013

### Arolygwyd dan Fframwaith newydd Estyn

| Ysgol | Dyddiadau | Arolygydd Adrodd |
|---|---|---|
| **Ysgol Hiraddug** | **Mawrth 2012** | **Sarah Hurst** |

*Mae Ysgol Hiraddug wedi'i lleoli ym mhentref Dyserth. Mae gan yr ysgol 226 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed. Mae gan ddau ddisgybl ddatganiad anghenion arbennig, ac mae 15.5% pellach naill ar weithredu ysgol neu weithredu ysgol a mwy ar gyfer cynhaliaeth ychwanegol. Yn ôl yr ysgol, daw'r disgyblion o gefndir cymdeithasol a ddisgrifir fel un sydd ddim yn ffyniannus na than anfantais economaidd. Mae ychydig dan 15% o ddisgyblion yn derbyn prydau bwyd ysgol am ddim. Saesneg yw'r brif iaith a siaredir gartref gan y mwyafrif helaeth o ddisgyblion.*

| | | |
|---|---|---|
| **Ysgol Y Faenol** | **Mai 2012** | **Jane Williams** |

*Mae Ysgol Y Faenol ym mhentref Bodelwyddan. Mae ychydig o blant yn byw y tu allan i ddalgylch traddodiadol yr ysgol. Mae teuluoedd yn symud i mewn ac allan o'r ardal yn aml. Ar hyn o bryd, mae 122 o ddisgyblion, gan gynnwys 15 o blant meithrin sy'n mynychu'n rhan amser. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, ac mae 13% yn derbyn cefnogaeth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae 11% o ddisgyblion yn dod o gymuned leiafrifol ethnig. Mae 29% o ddisgyblion yn derbyn prydau bwyd am ddim. Mae'r ysgol wedi canfod bod gan 19% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan yr un disgybl ddatganiad anghenion arbennig.*

| | | |
|---|---|---|
| **Ysgol Uwchradd Dinbych** | **Mai 2012** | **Nigel Vaughan** |

*Mae Ysgol Uwchradd Dinbych yn ysgol gyfun gymysg, cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11-18 oed. Mae nifer y dysgwyr wedi gostwng o 955 adeg yr arolygiad diwethaf i 726 ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dros y cyfnod hwn, mae'r nifer yn y chweched dosbarth wedi cynyddu ychydig i 127 ar hyn o bryd. Mae tua 21% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae ychydig o dan 13% o ddisgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cael cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan tua 2% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol sef 2.6%. Mae tuag 8% o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg fel mamiaith neu i safon gyfatebol.*

| | | |
|---|---|---|
| **Ysgol Dinas Bran** | **Mai 2012** | **Catherine Ellis** |

*Ysgol gyfun gymysg ddwyieithog 11-18 yw Ysgol Dinas Bran wedi'i lleoli yn Llangollen. Daw tua 65% o ddisgyblion o ranbarthau yn awdurdod lleol Wrecsam. Mae 984 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 210 yn y chweched dosbarth. Caiff tua un o bob deg o'r disgyblion eu haddysgu yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg. Mae'r ysgol wedi sefydlu canolfan gymorth i ddisgyblion. Mae'r cyfleuster hwn yn cynnig cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan 13% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae 4.5% o'r disgyblion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gan 2% o ddisgyblion ddatganiadau o angen addysgol arbennig. Cydnabyddir bod gan 25% arall o ddisgyblion ystod o anghenion addysgu arbennig. Mae 13 o ddisgyblion wedi'u datgymhwyso o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae 11% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith neu i safon gyfatebol.*

## SYLWADAU CADARNHAOL

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r Deilliannau:**

**Lles:**

- Mae'r pwyllgor rhyngwladol yn grŵp hynod effeithiol, ac mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn ystod o weithgareddau i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill, ac empathi atynt. *(Ysgol Dinas Bran)*
- Mae medrau cymdeithasol a bywyd disgyblion yn dda iawn. *(Ysgol Dinas Bran)*

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Profiadau dysgu:**

- Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn ymdrin â holl ofynion statudol. *(Ysgol Hiraddug)*
- Mae'r ddarpariaeth dda ar gyfer cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn cynorthwyo disgyblion i ddeall y rôl y maen nhw ac eraill yn ei chwarae mewn cymdeithas yn ogystal â gwybod mwy am y byd ehangach. *(Ysgol Hiraddug)*
- Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, daearyddiaeth a phroject 'Comenius' sy'n cysylltu â phedair ysgol yn Ewrop yn helpu cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. *(YU Dinbych)*
- Mae darpariaeth gwricwlaidd yn un o nodweddion rhagorol yr ysgol. Yn ogystal â darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion statudol, mae'r ysgol yn arloesol ac yn ddychmygus yn y ffordd y mae'n darparu'n gynhwysfawr ar gyfer gwahanol anghenion a dyheadau disgyblion, beth bynnag fo'u gallu neu'u diddordebau arbennig. *(Ysgol Dinas Bran)*
- Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gryfder arbennig yn yr ysgol. *(Ysgol Dinas Bran)*
- Mae'r ysgol yn effeithiol iawn yn sicrhau ymwybyddiaeth weithredol disgyblion o'u rôl mewn cymdeithas a'r byd. Mae holl ddisgyblion cyfnod allweddol 3 yn cymryd rhan mewn wythnos 'Addysg Ryngwladol a Chymunedol' ar ddiwedd tymor yr haf. Mae hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm, ac yn annog disgyblion i ddatblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill a phobl sy'n llai ffodus na nhw eu hunain. Mae'r prosiectau a'r ymweliadau diddorol a gwerthfawr niferus, yn ogystal â gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad cymdeithasol, diwylliannol a gyrfaoedd disgyblion. *(Ysgol Dinas Bran)*

**Gofal, cymorth ac arweiniad:**

- At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth ar gyfer byw'n iach a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais priodol ar hyrwyddo gwerthoedd ac egwyddorion yn dda iawn, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y parch sydd gan ddisgyblion at ei gilydd ac at oedolion. *(Ysgol Hiraddug)*

- Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad disgyblion yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i weithio'n dda gyda'i gilydd ac i ddangos parch, gofal a chonsyrn at eraill. *(Ysgol Y Faenol)*
- Mae'r ysgol yn cynllunio gwasanaethau a chyfnodau cofrestru yn dda ac mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i fyfyrio. *(YU Dinbych)*
- Mae agweddau ar y rhaglen 'myfyrdod y dydd' yn ychwanegu'n dda at ddatblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. *(Ysgol Dinas Bran)*

**Yr Amgylchedd Dysgu:**

- Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd amrywiaeth yn dda. (*Ysgol Y Faenol)*
- Mae'n gymuned gynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth. *(YU Dinbych)*
- Eir i'r afael yn effeithiol â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy'r ddarpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol. *(YU Dinbych)*

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

**Gweithio mewn partneriaeth:**

- Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol â grwpiau cymunedol, elusennau a busnesau lleol. Mae'r partneriaethau hyn wedi cryfhau'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, ac maent wedi cael effaith fuddiol ar les disgyblion. *(YU Dinbych)*
- Sefydlwyd ystod drawiadol o bartneriaethau gydag ysgolion a sefydliadau eraill ym mhob cwr o'r byd. Mae'r rhain wedi cael effaith sylweddol ar ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ac ar eu datblygiad personol. *(Ysgol Dinas Bran)*

## SYLWADAU NEGYDDOL

**Argymhellion**

- Datblygu gwybodaeth disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd-eang a'u gwybodaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. *(Ysgol Y Faenol)*
- Sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ar gyfer cyd-addoli. *(Ysgol Dinas Bran)*

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Gofal, cymorth ac arweiniad:**

- Nid yw mwyafrif y cyfnodau tiwtor dosbarth a'r gwasanaethau'n bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer y weithred ddyddiol o gyd-addoli. *(Ysgol Dinas Bran)*

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Profiadau Dysgu:**

- Nid yw'r ysgol mor effeithiol o ran hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang. *(Ysgol Y Faenol)*

<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>5 Hydref 2012</td></tr>
<tr><td>Eitem Agenda :</td><td>8</td><td>Manylion yr Adroddiad</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir i'r Adroddiad:</u><br><br>Mae'n ofyniad statudol i CYSAG gynhyrchu Adroddiad Blynyddol o'i waith, a bod yr Adroddiad Blynyddol hwn i'w roi ar gael i APADGOS erbyn Rhagfyr 31ain.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Pwrpas yr Adroddiad:</u><br><br>Nodi a chofnodi gwaith CYSAG am y flwyddyn Medi 2010–Gorffennaf 2011</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br><br>▪ Cymeradwyo'r adroddiad, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau, yn gyfrif cywir.<br>▪ Gofyn i'r Awdurdod Lleol drefnu i gyfieithu'r adroddiad i'r Gymraeg, ei brintio, a'i ddosbarthu i bob ysgol a choleg yn Sir Ddinbych, a derbynyddion eraill fel sy'n ofynnol drwy gyfraith ac fel y'i nodir yn yr adroddiad.</td></tr>
</table>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

AGENDA ITEM 8

# Annual Report

# of

# Denbighshire Standing Advisory Council for Religious Education

# 2011 - 2012

Daft

# <u>CONTENTS</u>


| | Page No: |
|---|---|
| **1. Executive Summary** | 2 - 3 |
| **2. Advice given to the LEA:** | 4 - 10 |
| a) Religious Education and the Agreed Syllabus | 4-7 |
| b) Methods of teaching, choice of teaching materials and provision of Initial Teacher Training | 7 - 8 |
| c) Collective Worship | 8 10 |
| **3. Other Matters:** | 10 - 11 |
| a) Local matters | 10 |
| b) National matters: | 10 |
| i. Estyn | 10 |
| ii. DELLS | 10 |
| iii. WASACRE | 11 |
| iv. Complaints | 11 |
| **4. Appendices:** | 11 - 15 |
| a) Composition of SACRE | 11 |
| b) Number and dates of meetings | 12 |
| c) Organisations receiving the report | 12 |
| d) Focused evidence: statistics | 13 - 15 |


Daft

# The Annual Report.

## 1. Executive Summary

| ***Topics/Issues:*** | ***Advice given:*** | ***Implemented By LEA:*** |
|---|---|---|
| RE: Agreed Syllabus | The new Agreed Syllabus and Comprehensive Guide for RE are continuing to be used in schools to inform their planning and preparation. | ✓ |
